

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 28 Ebrill 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd);

Y Cynghorwyr:

S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.P. Jenkins, C. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas a J.E. Williams;

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio;
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth);
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu;
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio];
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod: 9.10 yb - 10.20 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB / MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D.M. Cundy a J.D. James.

Gan mai hwn oedd y cyfarfod olaf cyn yr etholiadau, rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Cynghorwyr a oedd ym ymddeol sef y Cynghorwyr Ieuan Davies, Joseph Davies, Irfon Jones ac Eirwyn Williams am eu cyfraniadau at waith y Pwyllgor Cynllunio a dymunodd yn dda iddynt. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r holl swyddogion a fu'n ei gefnogi yn ei rôl yn ogystal â chefnogi'r Pwyllgor Cynllunio.

Diolchwyd i'r Cadeirydd am yr arweiniad yr oedd wedi'i roi i'r Pwyllgor Cynllunio.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Cyng. B.D.J. Phillips	3: PL/03336 - Cais am breswylfa 3 ystafell wely ar dir gyferbyn â Maes y Werin, Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin, SA34 0EL	Mae'r Cyng. Phillips yn perthyn yn agos i'r ymgeisydd a'r asiant;
Cyng. S.J.G. Gilsabey	3: PL/03398 - Newid defnydd tir gwag er mwyn gosod cynhwysydd storio, Trinity Methodist Church, Stryd y Bont, Cydweli, SA17 4UU	Mae'r Cyng. Gilasbey yn aelod o Gyngor Tref Cydweli a Phwyllgor Lles Gyngor Tref Cydweli.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/02356	Newid defnydd y tir er mwyn gosod 5 llain cwt bugail, gwneud gwaith seilwaith cysylltiedig a gwelliannau ecolegol, Abercoran Farm, Talacharn, Caerfyrddin, SA33 4RD
PL/03336	Cais am breswylfa 3 ystafell wely ar dir gyferbyn â Maes y Werin, Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin, SA34 0EL (NODER: Roedd y Cynghorydd B.D.J. Phillips wedi datgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried). (Noder: Mae caniatâd yn destun Cytundeb Adran 106 i sicrhau cyfraniad ariannol tuag at dai fforddiadwy)
PL/03398	Newid defnydd tir gwag er mwyn gosod cynhwysydd storio, Trinity Methodist Church, Stryd y Bont, Cydweli, SA17 4UU (NODER: Roedd y Cynghorydd S.J.G. Gilasbey wedi datgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried).

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 31AIN MAWRTH 2022

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 31ain Mawrth, 2022, gan eu bod yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD

[SYLWER: Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarlliediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.]